**PWYLLGOR MATERION EWROPEAIDD**

**Dyddiad: 25 Tachwedd 1999**

**Amser: 9.30am**

**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol**

**Teitl: Swyddfa’r Cynulliad ym Mrwsel**

**Pwrpas**

1. Hysbysu aelodau ynglþn â’r sefyllfa ddiweddaraf ynghylch swyddfa’r Cynulliad ym Mrwsel.

**Argymhelliad**

2. Gwahoddir Aelodau’r Pwyllgor i nodi’r camau gweithredu a ganlyn:

i) Bydd y Cynulliad yn agor swyddfa ym Mrwsel wedi ei chysylltu â Chynrychiolaeth y DU ar ôl cwblhau’r trefniadau angenrheidiol gyda’r FCO

ii) Bydd swyddfa’r Cynulliad wedi ei lleoli ar y cyd â Chanolfan Ewropeaidd Cymru

iii) Bydd yr Adran Rheoli Personél yn clustnodi swyddogion i’w secondio i swyddfa’r Cynulliad ym Mrwsel.

**Cefndir**

3. Yn ei gyfarfod ar 14 Hydref cefnogodd y Pwyllgor yr egwyddor o gael cynrychiolaeth ar wahân i’r Cynulliad ym Mrwsel, ond gyda’r staff yn rhan o Gynrychiolaeth Barhaol y Deyrnas Unedig hefyd. Gofynnodd y Cadeirydd am i bapur mwy manwl gael ei gyflwyno i’r cyfarfod hwn.

**Cynigion**

4. Yn dilyn y cyfarfod Pwyllgor diwethaf cynhaliwyd trafodaethau gyda’r Swyddfa Dramor a’r Gymanwlad a Chynrychiolaeth Barhaol y Deyrnas Unedig. Mae trafodaethau wedi eu cynnal hefyd gyda staff yn swyddfa Adran Weithredol yr Alban ym Mrwsel, a bu ymweliad â’u swyddfeydd.

5. Cynigir y trefniadau canlynol:

i) Bydd y Cynulliad yn agor swyddfa ym Mrwsel. Bydd yn rhan ffurfiol o Gynrychiolaeth y DU.

ii) Y nod fydd cael y swyddfa’n weithredol erbyn Ebrill 2000.

iii) Bydd dau swyddog o’r Cynulliad yn ffurfio’r staff craidd ar gyfer y swyddfa – Rheolwr Canol a Swyddog Gweithredol.

iv) Lleolir y swyddfa ar y cyd â Chanolfan Ewropeaidd Cymru, ond am resymau diogelwch a chyfrinachedd caiff ei lleoli mewn rhan wahanol o’r adeilad.

v) Mae Atodiad A yn amlinellu swyddogaeth swyddfa’r Cynulliad.

6. Adolygir y trefniadau hyn flwyddyn ar ôl creu’r swyddfa, a gellir addasu’r trefniadau bryd hynny.

**Cydymffurfio**

7. Mae’r Concordatiau ar Gysylltiadau Rhyngwladol a Chyd-drefnu Materion Polisi yr Undeb Ewropeaidd yn darparu’r fframwaith polisi i’r Cynulliad sefydlu swyddfa ym Mrwsel.

**Goblygiadau Ariannol**

8. Mae i gyllido’r trefniant hwn dair elfen:

i) Cost staffio’r swyddfa

ii) Cost agor a rhedeg y swyddfa

iii) Rhent sy’n daladwy i Ganolfan Ewropeaidd Cymru.

9. Caiff y gost o staffio’r swyddfa, yn cynnwys lwfansau, ei chynnwys o fewn Cyllideb Secondio’r Adran Rheoli Personél. Mae’r gyllideb ddrafft dros dro a gyflwynwyd gerbron y Cynulliad ar 4 Tachwedd yn cynnig sefydlu llinell wariant Gwasanaethau Cynnal Ewropeaidd Amrywiol gyda darpariaeth o £0.4m o 2000-01 ymlaen. Bydd rhai o’r adnoddau hyn yn mynd at gost agor a rhedeg y swyddfa a thalu’r rhent. Ymgynghorwyd â’r Adran Cynllunio Ariannol ac mae’n fodlon gyda’r agweddau ariannol.

**Themâu Trawsbynciol**

10. Trwy weithio gyda Chynrychiolaeth Barhaol y Deyrnas Unedig bydd y Cynulliad yn dangos ei ymrwymiad i weithio gyda llywodraeth y Deyrnas Unedig. Wrth leoli swyddfa’r Cynulliad gyda Chanolfan Ewropeaidd Cymru bydd y Cynulliad yn gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau Cymreig eraill.

**Pwyntiau Cyswllt**

11. Adran Materion Ewropeaidd